COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR TREF Y BARRI A GYNHALIWYD AR NOS LUN, 28 MEDI AM 6.00 PM

PRESENNOL: Y Maer Ymadawol (Cynghorydd Wilkinson), ynghyd â'r Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Clarke, Collins, Drake, Hampton, Hawkins, N Hodges, S Hodges, Hooper, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Payne (Cyrhaeddodd am 6.28), Perkes, Richardson, Rowlands, Wiliam a Wright.

HEFYD YN BRESRNNOL:

Emily Forbes	-	Prif Swyddog
Mark Sims	-	Dirprwy Brif Swyddog
Amanda Evans	-	Rheolydd Cyfleusterau a Mynwentydd
Rhian Burns	-	Gweinyddydd

GWEITHDREFNOL

761. **GALW COFRESTR**

Gofynnodd y Prif Swyddog i bawb oedd yn bresennol ddatgan hynny.

762. **DERBYN YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

763. **DERBYN DATGANIADAU O FUDDIANNAU O DAN GOD YMDDYGIAD Y CYNGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

GWAITH I'W GYFLAWNI

764. **ETHOL MAER Y DREF AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2020/21 FEL Y CYFARWYDDIR MEWN STATUD, DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 IA 15(2) A 34(2)**

Fe nodwyd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn caniatáu'r Cyngor i benderfynu peidio ethol Maer newydd a bod y Maer a'r Dirprwy Faer presennol yn parhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021.

Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer swydd Maer Cyngor Tref Y Barri ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21 fel a ganlyn:

Cynghorydd Wilkinson – enwebwyd gan y Cynghorydd Brooks ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rowlands.

Cymerwyd pleidlais, a'r canlyniad oedd yr etholwyd y Cynghorydd Wilkinson yn Faer y Dref am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 trwy bleidlais unfrydol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Wilkinson yn Faer y Dref am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 trwy bleidlais unfrydol.

765. **ETHOL DIRPRWY FAER Y DREF AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2020/21**

Fe nodwyd fod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn caniatáu'r Cyngor i benderfynu peidio ethol Maer newydd a bod y Maer a'r Dirprwy Faer presennol yn parhau yn eu swyddi tan fis Mai 2021.

Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Faer Cyngor Tref Y Barri ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21 fel a ganlyn:

Cynghorydd Clarke – enwebwyd gan y Cynghorydd S Hodges ac eiliwyd gan y Cynghorydd Johnson.

Cynghorydd Rowlands – enwebwyd gan y Cynghorydd Bailey ac eiliwyd gan y Cynghorydd Charles.

Cymerwyd pleidlais, a'r canlyniad oedd yr etholwyd y Cynghorydd Clarke yn Ddirprwy Faer y Dref am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 trwy bleidlais fwyafrifol o 15 i 6.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Clarke yn Ddirprwy Faer y Dref am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 trwy bleidlais fwyafrifol o 15 i 6.

766. **DERBYN DATGANIAD DERBYN SWYDD MAER Y DREF NEWYDD ETHOLEDIG**

Gwnaeth Dirprwy Faer y Dref newydd etholedig ei Ddatganiad yn Derbyn Swydd Dirprwy Faer y Dref ym mhresenoldeb y Prif Swyddog.

767. **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Fe nodwyd fod y Ddeddf hon yn cyflwyno'r angen i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau **bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.**

Er mwyn gweithredu felly, rhaid i gorff cyhoeddus roi ystyriaeth i'r materion canlynol:

(a) pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig felly pan all pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith hirdymor andwyol;

(b) yr angen i weithredu'n integredig, trwy ystyried sut—

i. all amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
ii. all amcanion llesiant y corff effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig felly pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond pan allent fod yn andwyol i gyflawni un arall;

(c) pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn y rhan honno o Gymru y mae'r corff yn cyflawni cyfrifoldebau ynddi;

*(*d) sut allai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion;

(e) sut all defnyddio adnoddau i rwystro problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff, neu amcanion corff arall.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

768. **CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN A GYNHALIWYD AR 29 GORFFENNAF 2020**

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo a llofnodi'n gywir gofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020.

769. **YSTYRIED CWESTIYNAU ODDI WRTH GYNGHORWYR (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (E))**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

770. **YSTYRIED CWESTIYNAU/SYLWADAU ODDI WRTH AELODAU'R CYHOEDD (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (F))**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

771. **YSTYRIED CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion.

772. **DERBYN CYFATHREBIADAU ODDI WRTH Y MAER**

Dywedodd y Maer y bu mewn gwasanaeth bychan i gofláu 75 mlwyddiant Brwydr Prydain a'i bod wedi gosod torch ar y gofadail.

Dywedodd ei bod yn bwriadu ysgrifennu datganiad i'r wasg i godi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r cyhoedd o waith y Cyngor a'r hyn oedd yn cael ei wneud i gefnogi'r gymuned leol.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cyfathrebiadau oddi wrth y Maer.

773. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWYD AR 28 GORFFENNAF AC 8 MEDI 2020 A RHOI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION SYDD YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a llofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf ac 8 Medi 2020.

774. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY A GYNHALIWYD AR 7 MEDI 2020 A RHOI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION SYDD YNDDYNT**

Fe nodwyd nad oedd cworwm yng nghyfarfod Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 7 Medi 2020.

LLYWODRAETHIANT

PENODI ROLAU AC AELODAU PWYLLGORAU

775. **ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2020/21 GAN NODI GAN NAD OES GAN UN BLAID FWYAFRIF CLIR YR ETHOLIR ARWEINYDD Y CYNGOR GAN Y CYNGOR YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 33(1)(B)**

Gofynnwyd i'r Aelodau ethol Arweinydd y Cyngor gan nodi gan nad oes gan un blaid fwyafrif clir yr etholir Arweinydd y Cyngor gan y Cyngor yn unol â Rheol Sefydlog 33 (1)(b).

Enwebwyd y Cynghorydd Brooks gan y Cynghorydd Drake ac eiliwyd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby. Cymerwyd pleidlais, a'r canlyniad oedd yr etholwyd y Cynghorydd Brooks yn Arweinydd y Cyngor am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 trwy bleidlais unfrydol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Brooks yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

776. **PENODI PWYLLGORAU CANLYNOL Y CYNGOR AR GYFER Y FLWYDDYN GYNGOR NESAF A CHYMERADWYO EU CYLCH GORCHWYL**

Roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai'n dda cael parhad o ran aelodaeth Pwyllgorau am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 a chytunwyd y dylai

aelodaeth Pwyllgorau aros fel yr oedd yn 2019/20. Ar sail hynny cytunwyd aelodaeth Pwyllgorau fel a ganlyn:

1. Penodi ar Bwyllgorau Sefydlog y Cyngor

a. Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol

Cynghorwyr Brooks, Drake, Hampton, N Hodges, S Hodges, Lloyd-Selby a Rowlands.

b. Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol

Cynghorwyr Aviet, Clarke, N Hodges, Johnson, Nugent-Finn, Richardson a Rowlands.

c. Personél

Cynghorwyr Charles, Clarke, Payne, Perkes, Wiliam, Wilkinson a Wright.

d. Cynllunio

Cynghorwyr Aviet (Gibbonsdown), Bailey (Dyfan), Collins (Castleland), Charles (Illtyd), Hawkins (Gibbonsdown), S Hodges (Baruc), Payne (Cadoc) a Perkes (Court).

2. Penodi ar Weithgorau a phwyllgorau heb fod yn rhai sefydlog

a. Gweithgor y Neuadd Goffa & Theatr

Cynghorwyr Aviet, Brooks, Charles, Clarke, Drake, S Hodges, a Wiliam.

b. Pwyllgor Ymgynghorol Masnach Deg

Cynghorwyr Hampton, Hawkins, S Hodges, Johnson, Lloyd-Selby, Richardson a Wright.

(Nodwyd y caniateir i aelodau'r cyhoedd gael hawliau pleidleisio ar Bwyllgor Ymgynghorol Masnach Deg)

c. Pwyllgor Buddsoddi'n Lleol

Cynghorwyr Bailey, Brooks, N Hodges, S Hodges, Hooper, Lloyd-Selby a Nugent-Finn.

d. Gweithgor Ail-lunio Gwasanaethau

Cynghorwyr Hawkins, S Hodges, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Richardson a Rowlands.

e. <u>Pwyllgor Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri</u>

Cynghorwyr Collins, Hampton, Hawkins, S Hodges, Payne, Perkes a Wright.

(Nodwyd y caniateir i aelodau'r cyhoedd gael hawliau pleidleisio ar y Pwyllgor Ymgynghorol Siopa'n Lleol)

f. <u>Gweithgor y Gymraeg</u>

Cynghorwyr Payne, Rowlands a Wiliam.

g. <u>Gweithgor i Ystyried Ymgynghoriadau a Dderbyniwyd</u>

Cynghorwyr Charles, Clarke, Drake, N Hodges a Wilkinson.

h. <u>Gweithgor Arloesedd</u>

Cynghorwyr Bailey, Brooks, Drake ac N Hodges.

i. <u>Gweithgor Y Barri Gynaliadwy</u>

Cynghorwyr Clarke, Drake, S Hodges, Lloyd-Selby, Payne, Rowlands a Wright

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid penodi'r aelodau uchod ar Bwyllgorau ar gyfer blwyddyn y cyngor i ddod yn unol â Rheol Sefydlog 4(g) atodiad 1.**

2. **Y dylid cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob Pwyllgor.**

777. **<u>ETHOL CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION Y PWYLLGORAU SEFYDLOG A RESTRWYD UCHOD</u>**

Roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai'n dda cael parhad o ran Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 a chytunwyd y dylai'r swyddi hyn barhau fel yr oeddent yn 2019/20. Ar sail hynny cytunwyd y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion canlynol:

<u>Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol</u>

Enwebwyd y Cynghorydd Brooks yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Brooks yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Enwebwyd y Cynghorydd Lloyd-Selby yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Lloyd-Selby yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Polisi & Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol

Enwebwyd y Cynghorydd N Hodges yn Gadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd N Hodges yn Gadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Enwebwyd y Cynghorydd Richardson yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol.

PENDERFYNWYD: Y dylid ethol y Cynghorydd Richardson yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Personél

Enwebwyd y Cynghorydd Charles yn Gadeirydd y Pwyllgor Personél ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

PENDERFYNWYD Y dylid ethol y Cynghorydd Charles yn Gadeirydd y Pwyllgor Personél ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Enwebwyd y Cynghorydd Payne yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Personél gan y Cynghorydd Perkes ac eiliwyd gan y Cynghorydd Charles.

PENDERFYNWYD Y dylid ethol y Cynghorydd Payne yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Cynllunio

Enwebwyd y Cynghorydd Hawkins yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD Y dylid ethol y Cynghorydd Hawkins yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

Enwebwyd y Cynghorydd Perkes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD Y dylid ethol y Cynghorydd Perkes yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn y cyngor 2020/21.

PENDERFYNWYD hefyd y byddai Cadeiryddion yr holl Weithgorau a Phwyllgorau heb fod yn rhai Sefydlog yn aros fel yr oeddent yn 2019/20 er mwyn cael parhad a chysondeb.

778. **PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL**

Roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai'n dda cael parhad o ran cynrychiolaeth ar gyrff allanol am weddill blwyddyn y cyngor 2020/21 a chytunwyd y dylai'r swyddi hyn aros fel yr oeddent yn 2019/20. Ar sail hynny cytunwyd cynrychiolaeth ar gyrff allanol fel a ganlyn:

YMCA Y Barri
Cynghorydd Hawkins
Cynghorydd Payne

Cyngor Ieuenctid Y Barri (pan yn weithredol)
Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)
Cynghorydd Payne (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Johnson (Eilydd)

Canolfan Blant Gibbonsdown
Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)
Cynghorydd Clarke
Cynghorydd Perkes

Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – Fforwm Cynghorau Lleol Mwy
Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)

Un Llais Cymru
Cynghorydd S Hodges (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Brooks (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Rowlands (Eilydd)

Un Llais Cymru – Cyfarfod Cynghorau Lleol Mwy
Cynghorydd Hawkins

Gweithdai/Digwyddiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cynghorydd Lloyd-Selby (Cynrychiolydd)

Cynghorydd S Hodges (Eilydd)

Bwrdd Ymdeimlad o Berthyn Y Barri
Cynghorydd S Hodges (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Payne (Eilydd)

Fforwm Canol y Dref
Cynghorydd Hooper (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Payne (Eilydd)

Rhwydwaith Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg
Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)

Partneriaeth Bioamrywiaeth Bro Morgannwg
Cynghorydd N Hodges (Cadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol)
Cynghorydd Richardson (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol)

Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau Bro Morgannwg
Cynghorydd N Hodges (Cynrychiolydd)

Pwyllgor Cyswllt Cymunedol Bro Morgannwg
Cynghorydd S Hodges (Cynrychiolydd)
Cynghorydd Perkes (Eilydd)

Bwrdd Prosiect Bro Morgannwg (Dynesfa'r Fynwent)
Cynghorydd N Hodges (Cadeirydd y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd & Chyfleusterau Cymunedol)

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid cytuno'r penodiadau uchod**

2. **Y dylid danfon llythyron at bob mudiad yn rhoi gwybod iddynt pwy yw cynrychiolwyr y Cyngor ac yn gofyn iddynt ddanfon hysbysiadau am gyfarfodydd at y cynrychiolydd/wyr perthnasol ac at y Prif Swyddog.**

779. **RHESTR CYFARFODYDD CYNGOR Y DREF AR GYFER 2020/21**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried rhestr cyfarfodydd Cyngor y Dref ar gyfer 2019/20. Nododd y Prif Swyddog y gwelwyd wrth eu paratoi fod y cyfarfodydd yn gwrthdaro â nifer o gyfarfodydd Bro Morgannwg eleni. Awgrymodd yr Aelodau newidiadau ac ychwanegiadau i restr y cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid newid Rhestr cyfarfodydd Cyngor y Dref ar gyfer 2020/21 er mwyn osgoi gwrthdaro gyda chyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.**

2. **Y dylid danfon y Rhestr ddiwygiedig o gyfarfodydd Cyngor y Dref ar gyfer 2020/21 at bob Aelod.**

3. **Y dylid gosod y Rhestr ddiwygiedig o gyfarfodydd Cyngor y Dref ar gyfer 2020/21 ar wefan Cyngor y Dref fel y gallai aelodau'r cyhoedd ei gweld.**

780. **ADOLYGU A MABWYSIADU CYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR AR GYFER 2020 GAN NODI FOD ANGEN PENDERFYNIAD AR WARIANT DIRPRWYEDIG I'R PRIF SWYDDOG (CLERC Y DREF)**

Derbyniodd yr Aelodau Gynllun Dirprwyo'r Cyngor. Gofynnodd y Prif Swyddog a ellid cynyddu'r gwariant brys y tu allan i'r gyllideb a gytunwyd y gallai hi ei awdurdodi o £3,000 i £5,000. Dywedodd y byddai hyn yn darparu ar gyfer gofynion cynllunio brys ac yn golygu y gellid gweithredu'n gyflymach.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid cynyddu'r gwariant brys y gellir ei awdurdodi gan y Prif Swyddog o £3,000 i £5,000.**

2. **Y dylid nodi ac ail-fabwysiadu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor.**

781. **CADARNHAU LLOFNODWYR SIECIAU'R CYNGOR AR GYFER 2020/21**

Gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu ar lofnodwyr sieciau'r Cyngor ar gyfer 2020/21.

Cynghorydd Brooks
Cynghorydd Charles
Cynghorydd N Hodges
Cynghorydd Hooper
Cynghorydd Perkes

A naill ai		Emily Forbes	-	Prif Swyddog
	neu	Mark Sims	-	Dirprwy Brif Swyddog

PENDERFYNWYD: Mai'r canlynol yw llofnodwyr sieciau'r Cyngor ar gyfer 2020/21:-

Unrhyw ddau o **Cynghorydd Brooks**
Cynghorydd Charles
Cynghorydd N Hodges
Cynghorydd Hooper

Cynghorydd Perkes

A naill ai		**Emily Forbes**	**-**	**Prif Swyddog**
	neu	**Mark Sims**	**-**	**Dirprwy Brif Swyddog**

782. **PENODI LLOFNODWYR SIECIAU AR GYFER CYFRIF ELUSEN MAER Y DREF AR GYFER 2020/21**

Gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu ar lofnodwyr sieciau Cyfrif Elusen y Maer ar gyfer 2020/21.

Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)

A naill ai:- Emily Forbes (Prif Swyddog)
neu Mark Sims (Dirprwy Brif Swyddog)

PENDERFYNWYD: Mai'r canlynol yw'r llofnodwyr sieciau ar gyfer Cyfrif Elusen y Maer ar gyfer y flwyddyn gyngor nesaf:-

Cynghorydd Wilkinson (Maer y Dref)

A naill ai Emily Forbes (Prif Swyddog)
neu Mark Sims (Dirprwy Brif Swyddog)

Ymunodd y Cynghorydd Payne â'r cyfarfod.

783. **AIL-FABWYSIADU PROTOCOL DINESIG CYNGOR Y DREF**

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo ac ail-fabwysiadu Protocol Dinesig Cyngor y Dref.

784. **DERBYN A CHYMERADWYO COFRESTR RISG CYNGOR Y DREF**

Darparwyd adroddiad ar gyfer yr Aelodau yn cynnwys Cofrestr Asesu Risg y Cyngor Tref. Dywedodd y Prif Swyddog fod y prif ychwanegiadau yn asesiadau risg yn ymwneud â Covid-19.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a chymeradwyo Cofrestr Asesu Risg y Cyngor.

785. **DERBYN ADRODDIADAU ARCHWILIAD MEWNOL 2019/20 (AIL INTERIM) AC (ADRODDIAD TERFYNOL)**

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Auditing Solutions Ltd wedi cynnal eu hail ymweliad ar gyfer 2019/20 ar 21 Ionawr 2020 a'u bod wedi cyflwyno eu hadroddiad cyn cyfnod clo mis Mawrth. Cwblhasant y gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2019/20 o bell ym mis Mehefin 2020 a chymeradwyo'r Datganiad Blynyddol a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf 2020.

Atodwyd copïau o adroddiadau'r archwilwyr mewnol ar gyfer 2019/20 (Ail Interim) ac (Adroddiad Terfynol) i'w hystyried. Mae'r adroddiadau'n darparu crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd ar y tri ymweliad, ac yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd daeth yr archwilwyr mewnol i'r casgliad fod y Cyngor yn parhau i weithredu trefniadau rheolaeth fewnol digonol ac effeithiol.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid derbyn a nodi adroddiadau archwilio mewnol 2019/20 (Ail Interim) ac (Adroddiad Terfynol).**

2. **Y dylid ail-benodi Auditing Solutions Ltd yn archwilwyr mewnol ar gyfer 2020/21.**

POLISÏAU

786. **ADOLYGU A MABWYSIADU LLAWLYFR STAFF CYNGOR Y DREF - GAN NODI POLISÏAU WEDI'U DIWEDDARU A GYTUNWYD GAN Y PWYLLGOR CYLLID, POLISI & DIBENION CYFFREDINOL A'R UNDEBAU TRWY GYDOL Y FLWYDDYN**

Gofynnwyd i Aelodau ystyried Llawlyfr Staff Cyngor y Dref.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a mabwysiadu'r Llawlyfr Staff.

STRATEGAETH

787. **DERBYN ADRODDIAD AR STRATEGAETH WEDI COVID-19 Y CYNGOR AC YSTYRIED SUT I WEITHREDU**

Derbyniodd yr Aelodau strategaeth ddrafft ar gyfer delio ag effeithiau parhaus ac efallai gwaethygol Covid-19 / Coronafeirws ar waith y Cyngor ac ar gyfer cynllunio ar gyfer cyfnod clo lleol neu genedlaethol arall.

Roedd yr Aelodau'n teimlo y dylid cadw presenoldeb staff yn y swyddfa. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n ymgynghori gydag aelodau'r staff ar sut ellid gwneud hyn yn ddiogel.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cytuno, er y gallai fod yn briodol i rai ceisiadau cynllunio gael eu penderfynu gan y Swyddog Cynllunio trwy gynllun dirprwyo, y dylai unrhyw geisiadau allai fod yn rhai dadleuol gael eu penderfynu gan y Pwyllgor o hyd.

PENDERFYNWYD: Y dylai argymhellion ar gyfer trefniadau a chamau i'w cymryd o 10 Hydref 2020 tan 1 Ionawr 2021 gael eu monitro a'u hadolygu yn gyson.

788. **DERBYN A NODI CYNLLUN CORFFORAETHOL PRESENNOL CYNGOR Y DREF 2017/22 AC AIL-FLAENORIAETHU AMCANION, YN ENWEDIG FELLY O RAN EFFAITH COVID-19 / CORONAFEIRWS. MAE SWYDDOGION YN ARGYMELL Y DYLAI'R CYNGOR GANOLBWYNTIO AR NIFER CYFYNGEDIG O DDEILLIANNAU AR GYFER GWEDDILL BLWYDDYN Y CYNGOR (HYD AT FIS MAI 2021)**

Nododd y Prif Swyddog mai blaenoriaeth gwaith Cyngor Tref Y Barri dros y misoedd diwethaf oedd cefnogi nodau llesiant 'Y Barri Gydnerth' ac 'Y Barri Gynaliadwy'. Awgrymodd y dylai'r ffrydiau gwaith a symbylwyd gan Weithgor Y Barri Gynaliadwy barhau'n ganolbwynt gwaith y Cyngor am weddill blwyddyn y cyngor.

Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r awgrym hwn gan amlygu'r angen i'r cyhoedd gael gwybod am y gwaith a wneir gan y Cyngor hwn i gefnogi'r gymuned.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r drafodaeth gynnwys eitem 30 ar yr agenda (DERBYN A NODI STRATEGAETH YMGYSYLLTU CYMUNEDOL BRESENNOL CYNGOR Y DREF 2017/22 A CHYTUNO AG ARGYMHELLIAD Y SWYDDOGION Y DYLID CYNNAL GWEITHDY GYDA CHYNGHORWYR I DDIWEDDARU A GLOYWI EI GYNLLUN GWEITHREDU ER MWYN AIL-ALINIO BLAENORIAETHAU GYDA GALLU'R CYNGOR I'W CYFLAWNI YN YR HINSAWDD BRESENNOL).

Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r awgrym hwn gan amlygu'r angen i'r cyhoedd gael gwybod am y gwaith a wneir gan y Cyngor hwn i gefnogi'r gymuned.

Gofynnodd y Cynghorydd Clarke a ellid ychwanegu cyfarfodydd ychwanegol o Weithgor Y Barri Gynaliadwy at y rhestr cyfarfodydd gan fod gan y Gweithgor lawer o waith y mae angen ei wneud.

Dywedodd y Cynghorydd Payne fod angen symud oddi wrth ymgysylltu a digwyddiadau corfforol a chanolbwyntio mwy ar gynhwysiant digidol.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylai'r ffrydiau gwaith a symbylwyd gan Weithgor Y Barri Gynaliadwy barhau'n ganolbwynt gwaith y Cyngor ar gyfer gweddill blwyddyn y cyngor 2020/21 ac y dylai'r Prif Swyddog fynd â'r blaenoriaethau hyn at Weithgor Y Barri Gynaliadwy er mwyn ystyried meysydd gweithredu.**

2. **Y dylid ychwanegu cyfarfodydd ychwanegol o Weithgor Y Barri Gynaliadwy at y Rhestr Cyfarfodydd.**

3. **Y dylid cynnal gweithdy gyda Chynghorwyr i ddiweddaru a gloywi'r cynllun gweithredu er mwyn ail-alinio blaenoriaethau gyda gallu'r Cyngor i'w cyflawni yn yr hinsawdd bresennol.**

789. **DERBYN A CHYTUNO'R RHESTR TALIADAU**

Derbyniodd yr aelodau y rhestr daliadau ar gyfer Medi 2020 i'w chymeradwyo, yn cynnwys taliadau BACS, debydau uniongyrchol a siec rhif 002973 gwerth cyfanswm o £50,628.98.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth ynghylch taliadau cyflog ar gyfer Awst a Medi 2020, a ardystiwyd ac a awdurdodwyd gan y swyddogion priodol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19(c);**

2. **Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau atodedig ar gyfer Medi 2020 yn cynnwys taliadau BACS, debydau uniongyrchol a siec rhif 002973 gwerth cyfanswm o £50,628.98, ar yr amod fod y papurau perthnasol yn eu lle.**

790. **ADRODDIADAU MONITRO'R GYLLIDEB FEL YR OEDD AR 31 AWST 2020**

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am incwm a gwariant y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2020/21 fel yr oedd ar ddiwedd Awst 2020.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Awst 2020, yn dangos yr union incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis pump ym mlwyddyn ariannol 2020/21, gan nodi'r gorwariant disgwyliedig o £27,207 ar gyfer 2020/21.

791. **DERBYN A NODI ADRODDIAD CRONFA ADFER WEDI COVID-19**

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o ba mor llwyddiannus fu Cronfa Adfer Wedi Covid-19 ynghyd â diweddariad ar beth gafodd ei ddyrannu a faint o arian oedd yn weddill.

Dywedodd y Cynghorydd S Hodges ei bod yn teimlo y bu Cronfa Adfer Wedi Covid-19 yn llwyddiannus iawn ac y darparwyd grantiau ar gyfer busnesau a mudiadau yn gyflym.

Adleisiodd y Cynghorydd Brooks sylw'r Cynghorydd S Hodges ac ychwanegodd ei bod yn falch o weld ystod eang o fusnesau a mudiadau yn gwneud cais i'r gronfa.

Dywedodd ei bod yn teimlo y byddai'n fuddiol rhoi cyhoeddusrwydd i'r cymorth a roddwyd i'r busnesau a mudiadau hyn.

Awgrymodd y Prif Swyddog y dylid ail-ddyrannu'r gyllideb o £10,000 a neilltuwyd ar gyfer yr Ŵyl Tân Gwyllt i bot Grantiau y brif Gronfa Adfer Wedi Covid-19. Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig hwn gan nodi fod cyfanswm o £23,000 heb ei ddyrannu yn weddill yn y Gronfa Adfer Wedi Covid-19 ac y dylai hwnnw hefyd gael ei ddyrannu i brif bot Grantiau Cronfa Adfer Wedi Covid-19. Roedd y Cyngor yn teimlo fod y £33,000 sy'n weddill yn y pot Grantiau yn ddigon ar gyfer y misoedd i ddilyn, a phe bai hwnnw'n mynd i lawr yn gyflym dros yr ychydig fisoedd nesaf y dylai'r sefyllfa gael ei hail-ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2020.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid ail-ddyrannu £10,000 yng Nghronfa Adfer Wedi Covid-19 o'r Ŵyl Tân Gwyllt i'r pot Grantiau.**

2. **Y dylid dyrannu'r gweddillion heb eu dyrannu yng Nghronfa Adfer Wedi Covid-19, sef £23,000m yn y pot Grantiau.**

3. **Y dylai'r gyllideb sy'n weddill yng Nghronfa Adfer Wedi Covid-19 gael ei hadolygu mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2020.**

792. **ADRODDIAD DIWEDDARU BLYNYDDOL AR FYNWENTYDD A CHYFLEUSTERAU**

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad ar wasanaethau a rhaglenni gwaith y Mynwentydd a Chyfleusterau yn ystod 2019/20.

Dywedodd y Cynghorydd N Hodges fod yr adroddiad yn adlewyrchu cymaint o waith a gafodd ei wneud yn y fynwent yn ystod 2019/20.

Diolchodd yr Aelodau i Reolydd y Mynwentydd a Chyfleusterau a Thîm y Mynwentydd am eu gwaith.

Nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol i'r Cyngor Llawn gael adroddiad blynyddol ar y prif ffrydiau gwaith sy'n ffurfio rhaglen tîm y Mynwentydd a Chyfleusterau.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi'r diweddariad ar Fynwentydd a Chyfleusterau ac y dylid paratoi adroddiad yn flynyddol.

793. **NODI FOD ADRODDIADAU GAN GYNRYCHIOLWYR YN GWASANAETHU AR GYRFF ALLANOL AR GAEL I'W HARCHWILIO YN Y FFEIL BWA LIFER A GEDWIR YN Y BRIF SWYDDFA**

PENDERFYNWYD: Y dylai adroddiadau gan gynrychiolwyr sy'n gwasanaethu ar Gyrff Allanol fod ar gael i'w darllen.

794. **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR HYFFORDDIANT I STAFF A CHYNGHORWYR**

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad yn rhestru'r hyfforddiant a dderbyniwyd rhwng Mawrth 2019 a Medi 2020.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi'r adroddiad.

795. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

PENDERFYNWYD: y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ar nos Fawrth, 8 Rhagfyr 2020 am 7 pm.

796. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, mae'n well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

797. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD GWEITHGOR Y NEUADD GOFFA & THEATR A GYNHALIWYD AR 9 MEDI 2020 A RHOI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION SYDD YNDDYNT**

Trafododd yr Aelodau gynigion a gyflwynwyd gan y Neuadd Goffa & Theatr yn y cyfarfod ar gyfer darparu rhaglen bosib ar gyfer y ganolfan. Roedd yr Aelodau'n teimlo fod angen agwedd fwy creadigol at ddarparu gwasanaethau ac nad oedd amodau'r cytundeb ariannu yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelodau am gyfarfod gyda holl ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa & Theatr yn bresennol er mwyn trafod y pryderon hyn a chytuno ar ffordd o symud ymlaen i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

1. **Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod Gweithgor y Neuadd Goffa & Theatr a gynhaliwyd ar 9 Medi 2020.**

2. **Y dylai'r Prif Swyddog ysgrifennu at Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa & Theatr i ofyn am gyfarfod.**

798. **DERBYN GOHEBIAETH ODDI WRTH J.D. WETHERSPOON**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi'r ohebiaeth oddi wrth J.D. Wetherspoon.

799. **ADRODDIAD CRYNO YR OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi Adroddiad Cryno yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.28 pm.

Llofnodwyd …… Dyddiedig ……

(Maer y Dref)